





# Yr Holocost a Chymru

## Ffoaduriaid Iddewig yn Lluoedd Arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Crëwyd gan y Ganolfan Astudio Symudedd Pobl (CASP) ym Mhrfysgol Aberystwyth






Crëwyd mewn partneriaeth rhwng CASP a Chymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (CHIDC) a'i ariannu gan Gymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig (AJR)

CMOP/CASP JHASW CHIDC AJR

# Ffoaduriaid Iddewig yn Lluoedd Arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar hanesion ffoaduriaid Iddewig a ymunodd â lluoedd arfog Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu llawer o filwyr Iddewig a fu gynt yn ffoaduriaid yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog yng Nghymru. Roedd rhai wedi'u cyfyngu i unedau atodol, tra bod eraill wedi'u hyfforddi fel comandos ac yn cymryd rhan mewn brwydrau, gan gynnwys yn ystod glaniadau D-Day.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth gefndir am ffoaduriaid Iddewig yn Lluoedd Arfog Prydain a ble i ddarganfod mwy
- Bywgraffiadau byr o Herman Rothman, Herbert Patrick Anderson a Colin Anson
- Dolenni i glipiau sain o recordiadau hanes llafar o Herman Rothman, Herbert Patrick Anderson a Colin Anson
- Ffotograff o X Troop yn Aberdyfi, 1943
- Trawsgrifiadau o'r clipiau sain

Mae'r adnodd yn rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocost. Efallai y byddwch am gyflwyno taflen waith Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost (HET), 'Diffinio'r Holocost', cyn archwilio'r adnoddau hyn. Gweler hefyd Egwyddorion Cyffredinol HET ynglŷn ag Addysgu am yr Holocost.

# Gwybodaeth gefndir am ffoaduriaid Iddewig yn Lluoedd Arfog Prydain

Roedd rhai ffoaduriaid yn benderfynol o ymladd yn ôl yn erbyn y rhai a fu'n gyfrifol am eu ffôedigaeth, ac ymunodd llawer â lluoedd arfog Prydain yn y frwydr yn erbyn Pwerau'r Echel. Ar y dechrau, doedd dim hawl gan ffoaduriaid o Awstria a'r Almaen i ymuno â Lluoedd Arfog Prydain. Cafodd hyn ei lacio ym mis Tachwedd 1939, pan gafodd rhai hawl arbennig i ymuno â Chorfflu Milwrol Atodol yr Arloeswyr (a ailenwyd yn Gorfflu'r Arloeswyr yn 1940), uned heb arfau a oedd yn cyflenwi gweithwyr i unedau Prydain. Roedd y tasgau'n cynnwys tyrchu ffosydd, adeiladu pontydd a chlirio ffyrdd. Cofrestrodd tua 4,000 o ffoaduriaid Iddewig gyda'r Pioneer Corps yn ystod y rhyfel.

O 1942 ymlaen, caniatawyd i ffoaduriaid o Awstria a'r Almaen ymuno'n uniongyrchol ag unedau technegol y Lluoedd Arbennig ac yn y pen draw, codwyd yr holl gyfyngiadau'n ymwneud â gwasanaethu. Roedd ffoaduriaid oedd yn gwasanaethu yn y fyddin weithiau'n cael eu hadnabod fel 'Gelynion Estron Teyrngar y Brenin'. Ymunodd tua 10,000 o ffoaduriaid o'r Almaen ac Awstria â lluoedd arfog Prydain rhwng 1939 a 1945.

Un o'r unedau milwrol mwyaf adnabyddus yn cynnwys rhai o wledydd tramor oedd No. 3 Troop of No. 10 (Inter-Allied) Commando, gyda'r llysenw 'X Troop', a leolwyd yn Aberdyfi, Gwynedd. Roedd y grŵp elitaidd hwn, a oedd yn cynnwys 87 o ffoaduriaid Almaeneg eu hiaith, wedi'u hyfforddi mewn cuddio, ymladd stryd, torri mewn i dai ac agor cloeon ar dir garw Eryri. Yn Iddewon yn bennaf, roedd yn rhaid iddyn nhw newid eu henwau a mabwysiadu gwahanol enwau rhag ofn iddyn nhw gael eu dal y tu ôl i linellau'r gelyn.

Er na wnaeth yr X Troop fyth frwydro fel uned, cafodd yr aelodau eu secondio i gatrodau comando eraill a'u hanfon i'r Eidal, Groeg, Iwgoslafia, Albania, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, Ffrainc a'r Almaen. Cymerodd pedwar deg pump o aelodau'r X Troop ran yn y glaniadau D-Day yn Normandi ar 6 Mehefin 1944, a lladdwyd, anafwyd neu collwyd 27 ohonynt. Cafodd y gatrawd ei dileu'n ffurfiol ym mis Medi 1945. Yn 1999, codwyd cofeb yn Aberdyfi i gofio'u haberth, ochr yn ochr â Gwely Rhosod Comando. Llwyddodd dros ugain o gyn-filwyr i fynychu'r seremoni.

I gael rhagor o wybodaeth am ffoaduriaid Iddewig yn Lluoedd Arfog Prydain, gweler:

- https://wp-research.aber.ac.uk/nsrefugeeswales/cy/hanes/gwasanaethu-yn-y-lluoedd-arfog/
- Helen Fry, Churchill's German Army: The Germans who Fought for Britain in World War Two (Cheltenham, 2009)
- Leah Garrett, X Troop: The Secret Jewish Commandos of World War II (Llundain, 2021)
- Peter Leighton-Langer, The King's Own Loyal Enemy Aliens: German and Austrian Refugees in Britain's Armed Forces, 1939-45 (Elstree, 2006)

## Ffynhonnell hanesyddol 1: Bywgraffiad byr o Herman Rothman

Ymunodd Herman Rothman, ffoadur o'r Almaen a arhosodd yng Nghastell Gwrych yng Ngogledd Cymru yn gynnar yn y rhyfel, â'r Corfflu Gwasanaeth Cyffredinol yn 1944, cyn cael ei drosglwyddo i'r King's Own Scottish Borderers. Ymunodd yn ddiweddarach â'r Corfflu Cudd-wybodaeth ac roedd ymhlith y bobl gyntaf i gyfieithu ewyllys wreiddiol Hitler pan ddarganfuwyd dogfennau wedi'u gwnïo i ysgwyddau siaced yn perthyn i Heinz Lorenz, ysgrifennydd y wasg ar gyfer Joseph Goebbels. Wedi hynny ysgrifennodd lyfr, Hitler's Will, yn manylu ar ei brofiadau.

## Ffynhonnell hanesyddol 2: Clip Sain: Cymhelliant Herman Rothman dros ymuno â'r lluoedd arfog

## Ffynhonnell hanesyddol 3: Bywgraffiad byr o Herbert Patrick Anderson

Ganed Herbert Patrick Anderson yn 1913 yn yr Almaen fel Helmut Herbert Fürst. Yn un oed, symudodd i Fienna, Awstria. Cyrhaeddodd Brydain ym mis Mawrth 1939. Ar ôl dechrau'r rhyfel, llwyddodd i dderbyn statws 'estron cyfeillgar', a'i galluogodd i ymuno â'r Pioneer Corps. Bu'n gweithio yn Le Havre yn Ffrainc o fis Mawrth 1940 ond dychwelodd i Brydain yn dilyn enciliad Dunkirk. Cafodd ei adleoli i Gymru a bu'n ffodus i ddianc o ddamwain â ffrwydryn tir yn Noc Penfro a laddodd 19 o filwyr, gan gynnwys tri ffoadur Almaenig-Iddewig. Symudwyd ei uned wedyn i Gaerfyrddin. Gwasanaethodd yn ddiweddarach yng Ngwlad Belg, yr Iseldiroedd a'r Almaen, a daeth yn ddinesydd

Prydeinig yn 1947. Bu farw Herbert yn Norfolk yn 2004 .

## Ffynhonnell hanesyddol 4: Clip Sain: Amser Herbert Patrick Anderson gyda'r Pioneer Corps yn Sir Gaerfyrddin

## Ffynhonnell hanesyddol 5: Bywgraffiad byr o Colin Anson

Ganed Colin Edward Anson yn Claus Leopold Octavio Ascher yn Berlin yn 1922. Arestiwyd ei dad gan y Natsïaid a bu farw yng ngwersyll crynhoi Dachau yn 1937. Ffodd Colin i Brydain ar y Kindertransport ym mis Chwefror 1939. Llwyddodd i osgoi cael ei garcharu ac ymunodd â'r Pioneer Corps, cyn cael ei drosglwyddo i X Troop. Cafodd ei anafu'n ddifrifol yn gwasanaethu yn Sicily yn 1943. Yn dilyn llawdriniaeth ar yr ymennydd, ail-ymunodd â'i uned ac ymladd yn [gyn] Iwgoslafia a'r Eidal. Ar ôl y rhyfel, bu'n gweithio yn yr Almaen yn ystod y broses ddadnatsieiddio. Priododd â'i gydffoadur Alice Gross a gweithiodd i wahanol gwmnïau teithio yn Llundain. Bu farw yn 2016.


## Ffynhonnell hanesyddol 6: Clip Sain: Colin Anson ar newid ei enw i ymuno â X Troop

# Ffynhonnell hanesyddol 7: Ffotograff o X Troop yn Aberdyfi, 1943



Ffynhonnell: Casgliad y Werin Cymru
Dolen: https://www.casgliadywerin.cymru/items/1896816
Delwedd o Archif Cyn-filwyr Commando
(https://gallery.commandoveterans.org/cdoGallery/v/units/10IA/x+troop/3+troop+photos/3-Troop+10+_IA_+Cdo+pic3.JPG.html)

# Ffynhonnell hanesyddol 8: Map o Ewrop, dechrau 1942



Ffynhonnell: Casgliad y Werin Cymru
Dolen: https://www.casgliadywerin.cymru/items/2156946
Wedi'i addasu o https:
https://commons.wikimedia.org/wiki/File:WWII_Occupied_Europe_Blank_Map.png

# Trawsgrifiadau

## Clip Sain: Cymhelliant Herman Rothman dros ymuno â'r lluoedd arfog

I mi, roedd 'cydymffurfio' yn golygu cael bywyd hawdd. Roedd hyn yn golygu sut i osgoi pethau os gallwch chi. Fodd bynnag, roeddwn i'n meddwl 'Rwy'n ei wneud i bwrpas'. Rwy'n meddwl bod hyn yn rhywbeth a all fod yn endemig mewn pobl fel fi. Rydych chi'n gwybod eich bod chi'n ymladd dros achos arbennig, ac felly roedd popeth roeddech chi'n ei wneud er budd eraill. Dyna oedd ein delfryd ni mewn ffordd. Roedd gen i'r syniad delfrydol hwn yn fy meddwl. Roedd popeth roeddwn i'n ei berfformio ac yn ei wneud er budd cymdeithas, ac yn drylwyr wrth gwrs - yn gynhwysol [o] – chi eich hun. Os oeddech eisiau trechu Hitler, roedd yn rhaid i chi wneud hynny, ac mae hynny'n rhywbeth a'm hysgogodd i, a'm cymhellodd.

## Clip Sain: Amser Herbert Patrick Anderson gyda'r Pioneer Corps yn Sir Gaerfyrddin

Ar ôl hir a hwyr, cyrhaeddais i Gaerfyrddin, yng ngofal grŵp bychan o tua 20 o ddynion. Roedd gennym ddyletswydd hynod o chwerthinllyd. Roeddem i gloddio tyllau i'r pridd mewn gwahanol fannau ledled y sir. Yn y tyllau hyn a oedd bron yn mor uchel â pherson, gosodwyd ciosgau pren a sedd, a'r syniad oedd y byddai dynion yn cael eu gosod yn y tyllau hyn, wedi'u cysylltu â'i gilydd dros y ffôn, os byddai goresgyniad yn cymryd lle. Gwnaethom y gwaith. Pob bore byddem yn cychwyn mewn lori, mynd i le arall, ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin, a meddwl tybed pam, oherwydd pwy ar y ddaear, petaech chi'n Hitler neu'n un o'i gadlywyddion, fyddai'n rhagweld goresgyniad o Brydain drwy ddechrau yn ne Cymru? Byddai'n rhaid iddyn nhw ddod o gwmpas de-orllewin Lloegr, oni fyddai? [...] Wel, roddodd yr Almaenwyr ddim cynnig ar wneud hynny a dydyn ni felly ddim yn gwybod – roedden ni'n...dwi'n meddwl yn aml a ydyn nhw'n dal i fodoli mewn ambell le ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin o hyd.

[Clip Sain: Colin Anson ar newid ei enw i ymuno â X Troop]

Roedd fy enw yn dipyn o anhawster oherwydd roedd nifer o bobl eraill yr oedd eu henw'n dechrau gydag 'A' ac roedd tueddiad i ddewis enw lle byddai eich cyfenw a'ch enw cyntaf â'r un llythrennau blaen – rhag ofn bod hancesi wedi'u brodio, neu beth – ac Andrews ac Anderson, roedd yr holl 'As' amlwg eisoes wedi eu defnyddio. Ond ar yr eiliad honno, digwyddodd Avro Anson hedfan uwchben, a'm tarodd fi fel enw byr a dymunol iawn, ac enw nad yw'n gyffredin iawn, felly y funud honno deuthum yn Anson, a daeth y Claus yn fy enw gwreiddiol yn Colin. Dewisais yr enw canol Edward yn y fan a'r lle, oherwydd edrychodd Capten Hilton-Jones i fyny a dweud, 'Dim enw canol? Mae'n arferol cael enw canol.' Felly, yn syml iawn, dewisais hwnnw ar hap, a dyna sut y newidiodd Claus Leopold Octavio Ascher yn Colin Edward Anson.